


Prifysgol Metropolitan Caerdydd

# Adroddiad Effaith Blynyddol Masnach Deg

2025-2026

Cynaliadwyedd
MetCaerdydd

# Tabl Cynnwys


**Rhagair** 3

**Hanes Masnach Deg ym Met Caerdydd** 4

**Uchafbwyntiau 2025-2026** 5

**Arweinyddiaeth a Llywodraethu Masnach Deg** 7

*Ymrwymiad Sefydliadol* 8

*Ymrwymiad Undeb y Myfyrwyr* 8

**Masnach Deg mewn Arlwyo a Chaffael** 9

*Hyrwyddiadau ac Ymgysylltu* 10

**Ymgysylltu â Myfyrwyr Masnach Deg, Staff a Chymuned** 11

*Wythnos Masnach Deg 2026* 11

*Ymgyrchoedd ac Eiriolaeth Myfyrwyr* 12

*Masnach Deg yn y Cwricwlwm* 14

*Ymgysylltu â Staff* 15

*Partneriaethau Cymunedol* 16

**Mesur Ymwybyddiaeth ac Effaith** 17

**Edrych Ymlaen** 18

# Rhagair

Gwir werth Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru yw sbarduno newidiadau ystyrlon yn y ffordd yr ydym yn byw ac yn gweithio.
Un o'r ffyrdd symlaf y gallwn gefnogi Cymru Gyfrifol yn Fyd-eang yw meddwl am yr hyn rydyn ni'n ei brynu a sut mae'r cynhyrchion hynny'n cael eu gwneud. Gall y dewisiadau rydyn ni'n eu gwneud bob dydd - y coffi rydyn ni'n ei yfed, y siocled rydyn ni'n ei fwyta, y dillad rydyn ni'n eu gwisgo - lunio bywydau ffermwyr, cwmnïau cydweithredol, cymunedau a theuluoedd ledled y byd.

Cynaliadwyedd
MetCaerdydd

Dyna pam mae Masnach Deg yn bwysig. I filiynau o gynhyrchwyr mewn gwledydd sy'n datblygu, mae mynediad teg i farchnadoedd byd-eang, a chydnabod gwarcheidiaeth mentrau bach, yn pennu a all ffermio ddarparu bywoliaeth sefydlog ai peidio. Mae Masnach Deg yn sicrhau bod ffermwyr yn derbyn pris teg, amodau gwaith diogel ac yn darparu cyllid ychwanegol yn uniongyrchol i fentrau cymunedol sy'n gwella safonau byw i bawb yn y gymuned honno.

Yma ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, rydym yn cydnabod bod prifysgolion yn chwarae rhan bwysig wrth adeiladu economi fyd-eang tecach. Trwy gydweithrediad agos â'n Undeb Myfyrwyr, myfyrwyr, staff a chyflenwyr, rydym yn cryfhau Masnach Deg ar draws gweithrediadau ein campws, gan ymgorffori ei hegwyddorion yn ein cwricwlwm, ac yn cefnogi partneriaethau cymunedol ehangach.

Rwy'n falch iawn o gyflwyno’r adroddiad hwn sy'n tynnu sylw at y camau a gymerwyd yn ystod 2025-2026 i gryfhau ymrwymiad Prifysgol Met Caerdydd i sicrhau dyfodol tecach a mwy cynaliadwy.




**-DR DAVID CLUBB**
*Arweinydd Gweithredu ar Newid Hinsawdd*




# Hanes Masnach Deg ym Met Caerdydd

**Mae gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd ac Undeb Myfyrwyr Metropolitan Caerdydd ymrwymiad hirsefydlog i Fasnach Deg, gan gefnogi a gwerthu cynnyrch Masnach Deg ers 2003 ac ennill achrediad yn 2007. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi parhau i adeiladu ar y sylfaen gref hon trwy sawl cyflawniad allweddol.**

**Cynigir te a choffi Masnach Deg fel safon ar draws y campws, ac mae ein siop Stiwdio Argraffu yn gwerthu nwyddau wedi'u gwneud â chotwm Masnach Deg, gan ymgorffori cyrchu moesegol mewn ymarfer bob dydd. Ar draws y blynyddoedd, rydym hefyd wedi cyflwyno ystod o ddigwyddiadau i godi ymwybyddiaeth am Fasnach Deg. Er enghraifft, fel rhan o Pythefnos Masnach Deg yn 2023, cynhaliodd Undeb y Myfyrwyr ddigwyddiad Masnach Deg lle ymunodd Jane Hutt AS, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol â chymuned Met Caerdydd, i ddathlu cyfiawnder masnach a chynaliadwyedd.**

**Rydym yn falch o'r cynnydd hwn a'n nod yw parhau i adeiladu ar ein gwaith a'n hymdrechion presennol, gyda'r nod o gyflawni achrediad Masnach Deg eto yn 2026.**

# Uchafbwyntiau 2025-2026

Eleni parhaodd Met Caerdydd i adeiladu ar ei hymrwymiad Masnach Deg hirsefydlog:




*Blwyddyn gref ar gyfer cynnwys myfyrwyr drwy ymgyrchoedd adrodd straeon a phrosiectau ymchwil.*



*Cynhaliwyd ein Wythnos Masnach Deg ar 9-15 Mawrth 2026 a oedd yn cynnwys digwyddiadau arbennig, ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol ac ymgysylltu â'r gymuned.*



*Cynnydd mewn gwerthiannau Masnach Deg a darpariaeth barhaus o gynhyrchion Masnach Deg ar draws ein mannau arlwyo a lletygarwch ar y campws.*

# Uchafbwyntiau 2025-2026




*Mwy o hyrwyddo ein cynnyrch cotwm Masnach Deg mewn dillad a nwyddau.*




*Cydweithio â grwpiau Masnach Deg lleol yn y gymuned.*




*Ymgysylltu staff a myfyrwyr yn yr Arolwg Ymwybyddiaeth Masnach Deg blynyddol.*

*Gyda'i gilydd, mae'r camau hyn wedi helpu i sicrhau bod Masnach Deg wedi parhau i fod yn weladwy, yn hygyrch ac yn ystyrlon ar draws y campws.*

# Arweinyddiaeth a Llywodraethu Masnach Deg

Mae gan Met Caerdydd Grŵp Llywio Masnach Deg sy'n cydlynu gweithgareddau ac ymwybyddiaeth ar draws y brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr. Cyfarfu'r grŵp ddwywaith yn ffurfiol yn ystod y flwyddyn academaidd, ochr yn ochr â chyfarfodydd gwaith ad hoc ychwanegol i gydlynu cyflwyniad Gwobr Masnach Deg. Mae'r grŵp hefyd yn cyhoeddi cynllun SMART bob dwy flynedd sy'n nodi targedau ac amcanion clir. Mae'r grŵp hwn wedi gweithio i sicrhau bod mentrau Masnach Deg wedi'u hymgorffori ar draws gweithrediadau, caffael, ymgysylltu â myfyrwyr, a dysgu.

**Mae'r aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r sefydliad:**

- *Swyddogion Ymgysylltu Cynaliadwyedd*
- *Rheolwr Gwasanaethau Arlwyo a Lletygarwch*
- *Pennaeth Gweithredu ar Newid Hinsawdd*
- *Prif Swyddog Gweithredol yr Undeb*
- *Rheolwr Lletygarwch Undeb Myfyrwyr*
- *Llywydd Undeb Myfyrwyr/Is-lywydd*
- *Cynrychiolwyr myfyrwyr*
- *Cynrychiolydd y Stiwdio Argraffu*



# Arweinyddiaeth a Llywodraethu Masnach Deg

**Ymrwymiad Sefydliadol**

Yn 2025, adolygodd y brifysgol ei chynaliadwyedd. Mae Met Caerdydd yn parhau i ddangos arweinyddiaeth sefydliadol ar Fasnach Deg drwy integreiddio ymrwymiadau Masnach Deg i bolisïau, targedau ac amcanion cynaliadwyedd allweddol. Mae pob polisi ar gael i'r cyhoedd drwy dudalennau gwe Hyb Polisi'r brifysgol.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Polisi Masnach Deg
- Polisi Cynaliadwyedd
- Polisi Bwyd Cynaliadwy

**Ymrwymiad Undeb y Myfyrwyr**

Cadarnhaodd Undeb y Myfyrwyr ei ymrwymiad i Fasnach Deg drwy adnewyddu ei bolisi Masnach Deg yn 2026, gan atgyfnerthu rôl arweinyddiaeth myfyrwyr wrth hyrwyddo defnydd moesegol.





# Masnach Deg mewn Arlwyo a Chaffael

Mae bwyd a diod ymhlith y ffyrdd mwyaf gweladwy y gall prifysgolion gefnogi cynhyrchwyr Masnach Deg. Mae Met Caerdydd yn parhau i flaenoriaethu cyrchu Masnach Deg ar draws mannau arlwyo, gwasanaethau lletygarwch a mannau manwerthu

### Cynhyrchion Masnach Deg ar draws y Campws

Caiff te a choffi Masnach Deg eu gwasanaethu ym mannau a gwasanaethau lletygarwch y brifysgol, gan gynnwys cynadleddau a digwyddiadau a gynhelir ar y campws. Drwy gydol y flwyddyn, cynhaliwyd y brifysgol stociau o gynhyrchion Masnach Deg ar draws categorïau allweddol, gan gynnwys:

Te
Coffi
Siwgr
Siocled a melysion
Bananas
Byrbrydau

Ers 2007, mae stiwdio argraffu'r brifysgol wedi defnyddio cotwm ardystiedig Masnach Deg yn unig ar gyfer dillad a werthir yn ystod digwyddiadau, seremonïau graddio ac yn siop y brifysgol. Mae dogfennaeth tendr ar becynnau chwaraeon yn cyfeirio at ofynion Masnach Deg lle bo hynny'n berthnasol ac yn nodi y bydd cyflenwyr Masnach Deg yn well pan fydd ar gael. Mae'r brifysgol hefyd wedi gweithio gyda chyflenwyr presennol i'w hannog i ehangu eu hystod o gynhyrchion Masnach Deg.







### Hyrwyddo ac Ymgysylltu

Mae ein mannau lletygarwch yn hyrwyddo cynnyrch Masnach Deg o bryd i'w gilydd i annog prynu moesegol. Er enghraifft, eleni tynnodd ymgyrch hyrwyddo sylw at siocled Masnach Deg gan Tony's Chocolonely, gan godi ymwybyddiaeth o gyrchu siocled moesegol. Mae'r grŵp Llywio Masnach Deg yn arwain ar greu hyrwyddiadau Pwynt Gwerthu newydd ac yn cydlynu hyn ar draws holl safleoedd y brifysgol. Yn 2025-2026 dosbarthwyd deunyddiau ymgyrchu newydd ar draws safleoedd y brifysgol.

# Ymgysylltu Masnach Deg â Myfyrwyr, Staff a'r Gymuned

Mae prifysgolion yn chwarae rhan unigryw wrth lunio agweddau a gwerthoedd arweinwyr y dyfodol. Ym Met Caerdydd, mae gweithgareddau ymgysylltu wedi helpu myfyrwyr a staff i ddeall sut y gall dewisiadau bob dydd gefnogi masnach decach.

## Wythnos Masnach Deg 2026

Yn ystod 10-15 Mawrth, cynhaliodd Met Caerdydd ei Hwythnos Masnach Deg flynyddol, a oedd yn cynnwys ystod o weithgareddau a gychwynnwyd i godi ymwybyddiaeth o ddefnydd moesegol.



**Roedd y gweithgareddau'n cynnwys:**

-Ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol yn hyrwyddo cynnyrch Masnach Deg

-Stondinau Masnach Deg ar Ddiwrnod Cymunedol y Brifysgol

-Digwyddiad Te Prynhawn Masnach Deg gyda gweithgareddau Adrodd Straeon yn tynnu sylw at effaith masnach deg yn fyd-eang

Roedd y digwyddiadau hyn yn creu cyfleoedd i fyfyrwyr a staff ddysgu am Fasnach Deg tra'n profi cynhyrchion Masnach Deg yn uniongyrchol.



"Diolch yn fawr iawn i'r Tîm Cynaliadwyedd am gynnal digwyddiad Masnach Deg gwych ddoe, roeddwn i'n falch o gael mynychu, roedd y cacennau'n flasus a'r gweithgareddau, a'r straeon yn wych. Digwyddiad anhygoel ar y cyfan, diolch eto a dyma obeithio y bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal eto cyn hir!"

***Aelod o Staff Met Caerdydd***
***Digwyddiad Te Prynhawn Masnach Deg***
***11 Marwth 2026***

## Ymgyrchoedd ac Eiriolaeth

Mae'r Grŵp Llywio wedi cefnogi myfyrwyr wrth ymgyrchu dros faterion yn ymwneud â Masnach Deg, gyda gweithgareddau'n cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn academaidd. Er enghraifft, bu myfyrwyr yn hyrwyddo Masnach Deg yn ystod Wythnos Wyrdd (17—23 Tachwedd) 2025 ac roeddent yn bresennol yn Ffair y Glas ar 24 Medi 2025, lle buont yn ymgysylltu â chyfoedion a chodi ymwybyddiaeth o ddefnydd moesegol. Mynychodd myfyrwyr bob Diwrnod Cymunedol hefyd, gan hyrwyddo Masnach Deg ac annog staff a myfyrwyr i gymryd rhan yn yr arolwg Masnach Deg, gan helpu i gasglu mewnwelediadau ac ennyn diddordeb cymuned y brifysgol.




















## Jenisha Shrestha

*MSc Cyfrifeg a Chyllid*

“Bu fy mhrofiad o wirfoddoli ar gyfer Masnach Deg yn addysgol ac ystyrlon. Fe wnaeth fy helpu i ddeall bod ffermwyr yn haeddu swm teg am eu llafur ac y dylai tegwch fod wrth wraidd sut rydym yn gwerthfawrogi gwaith caled pobl. Dysgais lawer am foeseg drwy'r profiad hwn, ac rwy’n teimlo fod hyn yn arbennig o bwysig mewn lleoliadau proffesiynol lle mae cyfrifoldeb a gwneud penderfyniadau teg yn hynod bwysig. Roeddwn hefyd yn teimlo'n falch o wybod bod Met Caerdydd yn hyrwyddo Masnach Deg ar y campws. Ar y cyfan, rwy'n falch o fod yn rhan o rywbeth mwy, ac mae'r profiad hwn wedi bod yn ysbrydoledig ac yn galonogoi.”

## Ferdous Raz

*MSc Rheoli Busnes Rhyngwladol*

“Mae gwirfoddoli ar gyfer mentrau Masnach Deg y brifysgol wedi bod yn brofiad hynod werth chweil sydd wedi ychwanegu'n fawr at fy amser yn y brifysgol. Mae wedi caniatáu i mi ddatblygu sgiliau newydd mewn cydlynu digwyddiadau a chynllunio gwaith tîm ac hefyd i ddatblygu fy ngwybodaeth am foeseg a chynaliadwyedd byd-eang . Drwy ddysgu am Fasnach Deg, rwyf hefyd wedi dod yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd ein dewisiadau bob dydd wrth wneud gwahaniaeth i gynhyrchwyr ledled y byd. Rwy'n falch o fod yn rhan o gymuned brifysgol sy'n wirioneddol hyrwyddo'r gwerthoedd hyn ac yn annog eraill i wneud yr un peth. ”



## Masnach Deg yn y Cwricwlwm

Bob blwyddyn, mae'r tîm cynaliadwyedd yn cynnig 20-25 diwrnod o leoliadau dysgu seiliedig ar waith sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd, gan gynnwys Masnach Deg. Hysbysebir lleoliadau ar draws adrannau ac ysgolion, gan ddarparu cyfleoedd rhyngddisgyblaethol i fyfyrwyr. Yn 2025-2026 sicrhawyd dau leoliad gwaith gan ddau fyfyriwr dylunio brwdfrydig a fydd yn gweithio i greu ymgyrchoedd marchnata Masnach Deg arloesol, gan dargedu ein myfyrwyr gyda'r nod o hybu dealltwriaeth o Fasnach Deg a gwella hyrwyddo Masnach Deg ar draws y campws. Bydd y lleoliadau yn cael eu cwblhau yn ystod Ebrill 2026, a bydd yr ymgyrchoedd wedyn yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

O fewn y ddwy flynedd ddiwethaf, mae Met Caerdydd wedi cefnogi nifer o garfannau myfyrwyr i ymchwilio i faterion Masnach Deg o fewn eu gwaith cwrs. Mae un enghraifft yn cynnwys cefnogi myfyrwyr Prynu a Rheoli Ffasiwn i ymchwilio i gyrchu moesegol, archwilio materion cynaliadwyedd a Masnach Deg ar draws y gadwyn gyflenwi ehangach. Fel rhan o'u gwaith, heriwyd myfyrwyr i ailddychmygu brandiau trwy lens cynaliadwyedd, gan ymgorffori egwyddorion Masnach Deg yn aml yn eu cynigion. Yna rhannwyd eu profiadau dysgu ar draws sianeli cyfryngau cymdeithasol, gan ddathlu eu gwaith ac arddangos sut mae gwaith myfyrwyr drwy'r cwricwlwm yn cyfrannu at godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Fasnach Deg.

Drwy sefydlu'r Tîm Gweithredu Hinsawdd yn 2025, mae ymdrechion pellach yn cael eu cyfeirio tuag at ymgorffori cynaliadwyedd a Masnach Deg o fewn y cwricwlwm yn y blynyddoedd nesaf. Mae llawer o raglenni gradd eisoes yn ymgorffori elfennau o gyfiawnder masnach a chyrchu moesegol, a'n nod yw mapio'r modiwlau hyn ar draws y brifysgol er mwyn deall y ddarpariaeth bresennol yn well, nodi cyfleoedd ar gyfer twf, a chryfhau integreiddio egwyddorion Masnach Deg mewn addysgu a dysgu.






## Ymgysylltiad Staff

Mae Masnach Deg yn cael ei hyrwyddo'n eang i staff drwy gyfathrebu a mentrau cynaliadwyedd. Yn ogystal â phrynu cynhyrchion Masnach Deg o fannau arlwyo, anogir staff i ddewis opsiynau Masnach Deg mewn ceginau cymunedol a swyddfeydd, lle mae te a choffi Masnach Deg ar gael yn rhwydd. Yn ystod 2025—2026, cefnogodd y Grŵp Llywio Masnach Deg hyn ymhellach drwy weithgareddau hyrwyddo wedi'u targedu i godi ymwybyddiaeth ac annog cymuned y brifysgol i ddefnyddio cynhyrchion Masnach Deg.



## Partneriaethau Cymunedol

Mae Masnach Deg ym Met Caerdydd yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau'r campws drwy bartneriaethau gyda sefydliadau lleol a grwpiau cymunedol. Yn ystod blwyddyn academaidd 2025-2026, trefnodd Met Caerdydd dri Diwrnod Cymunedol, gan ddod â ffermwyr a masnachwyr lleol ar y campws. Mae un enghraifft yn cynnwys Stronghold Coffee, a werthodd de a choffi Masnach Deg i staff, myfyrwyr, a'r gymuned ehangach, tra hefyd yn rhannu mewnwelediadau ar sut mae'r digwyddiadau hyn yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i fasnachwyr hyrwyddo a gwerthu cynhyrchion Masnach Deg.

Cafodd y profiadau hyn eu dal drwy gyfweliad fer a'u rhannu ar draws cyfryngau cymdeithasol, gan helpu i gynnyddu effaith y mentrau hyn a chodi ymwybyddiaeth ehangach o Fasnach Deg. Mae'r digwyddiadau hefyd yn rhoi cyfle i groesawu'r gymuned leol ar y campws, gan greu lle i ymgysylltu â Met Caerdydd a'i gweithgareddau Masnach Deg.



Yn ystod Wythnos Masnach Deg, partneriodd y brifysgol gyda Grŵp Masnach Deg Pontypridd i gynnal digwyddiad Te Prynhawn ac adrodd straeon Masnach Deg. Cafodd y grŵp hefyd i gyfle i gynnal stondin, gan gynnig cyfle i fyfyrwyr a staff ddysgu mwy am sut i gymryd rhan. Gan fod llawer o aelodau o gymuned y brifysgol yn byw mewn trefi cyfagos ac ardaloedd lleol, creodd hyn gyfle gwerthfawr i ymgysylltu â Masnach Deg y tu hwnt i'r brifysgol a dinas Caerdydd, gan gryfhau cysylltiadau â'r gymuned ehangach.

# Mesur Ymwybyddiaeth ac Effaith

Mae Met Caerdydd yn cynnal arolwg blynyddol i fesur ymwybyddiaeth o Fasnach Deg a nodi cyfleoedd i gryfhau ymgysylltiad.

Cafodd arolwg 2026 129 o ymatebion gan staff a myfyrwyr. Mae canfyddiadau allweddol, a gyflwynwyd yn Ffigurau 1 a 2, yn dangos bod Met Caerdydd mewn sefyllfa gadarnhaol o ran Masnach Deg. Mae lefel uchel o ymwybyddiaeth ymhith ein cynuned, gyda'r rhan fwyaf o staff a myfyrwyr yn deall ystyr Masnach Deg yn, ac mae llawer yn cael eu hysgogi gan werthoedd megis tegwch, cynaliadwyedd, ac amodau gwaith gwell. Mae hefyd yn galonogol bod pobl yn fwy tebygol o ddewis Masnach Deg pan fydd ar gael yn rhwydd, ac y byddai mwyafrif clir yn hoffi gweld mwy o fentrau a chynhyrchion Masnach Deg ar y campws. Fodd bynnag, mae bwlch o hyd rhwng ymwybyddiaeth a gweithredu cyson.







Mae cyfran lai yn mynd ati i chwilio am gynhyrchion Masnach Deg, gyda rhwystrau allweddol wedi'u nodi fel diffyg amlygrwydd, costau canfyddedig, a diffyg gwybodaeth glir am y manteision. Mae hyn yn tynnu sylw at gyfle i'r brifysgol wneud Masnach Deg yn fwy gweladwy a hygyrch mewn lleoliadau bob dydd, tra'n cryfhau cyfathrebu ynghylch yr effaith mewn ffordd glir a pherthynadwy. Wrth symud ymlaen, bydd ein dull yn canolbwyntio ar adrodd straeon, cyflwyno digwyddiadau deniadol a phersonol gyda siaradwyr ysbrydoledig, a pharhau i rannu straeon go iawn gan unigolion sy'nchwarae rhan hanfodol yn  y gadwyn gyflenwi.

# Edrych Ymlaen

Gan adeiladu ar y cynnydd cryf a wnaed hyd yma, mae Met Caerdydd mewn sefyllfa dda i ymgorffori Masnach Deg ymhellach ar draws addysgu, ymgysylltu a phartneriaethau. Dros y blynyddoedd nesaf, bydd y brifysgol yn canolbwyntio ar gryfhau cydweithio o fewn a thu hwnt i'r sefydliad, gan sicrhau bod Masnach Deg yn parhau i fod yn weladwy ac yn effeithiol. Bydd cryfhau cyfranogiad myfyrwyr trwy ymgyrchoedd, gweithgareddau codi arian, a chydweithio hefyd yn ffocws allweddol i'n gwaith.

Blaenoriaeth allweddol arall fydd dyfnhau partneriaethau gydag ysgolion a cholegau lleol, gan greu mwy o gyfleoedd ar gyfer prosiectau ac ymgyrchoedd ar y cyd, a chefnogi datblygu grwpiau Masnach Deg newydd lle nad ydynt eisoes yn bodoli. Ochr yn ochr â hyn, bydd y brifysgol yn parhau i rannu dysgu ac arferion gorau gyda'r sector ehangach, gan gyfrannu at gynnydd yn rhwydwaith y Brifysgol a'r Coleg Masnach Deg.

O fewn y cwricwlwm, mae cyfle clir i ymgorffori themâu Masnach Deg, defnydd moesegol, a chyfiawnder masnach ymhellach. Mae hyn yn cynnwys annog mwy o gyfranogiad mewn mentrau fel y SDG Teach-In, cefnogi staff i ymuno â'r Cyfeiriadur Masnach Deg o Gefnogi Academyddion, ac archwilio datblygiad neu ddilysiad modiwlau sy'n canolbwyntio ar y pynciau hyn.

Yn weithredol, bydd y brifysgol yn gweithio i sicrhau bod Masnach Deg yn parhau i gael ei ymgorffori o fewn gwasanaethau caffael ac arlwyo, gan gynnwys prosesau clir i gefnogi cyflenwyr a thenantiaid newydd wrth ddarparu opsiynau Masnach Deg lle bynnag y bo modd.

